**EITEM AR YR AGENDA: 8**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PANEL GWEITHREDOL**

**9fed Mai 2011**

**Awdurdodau Tân ac Achub – Dangosyddion Perfformiad**

**Adroddiad gan Shân Morris, Rheolwr Cynllunio Corfforaethol**

## Diben yr Adroddiad

1 Cynghori aelodau o'r dangosyddion perfformiad fydd yr Awdurdodau Tân ac Achub Cymreig yn cael eu mesur yn eu herbyn o 2011-12 ymlaen.

## Cefndir

2 Mae adran 2 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ("y mesur") yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau gwella Cymreig i sicrhau gwella parhaol yn y ffordd mae eu swyddogaethau yn cael eu hymarfer, gan ystyried saith agwedd o wella.

3 Mae adran 8 o'r Mesur yn rhoi pŵer ar Weinidogion Cymreig i ddynodi yn ôl Gorchymyn, y dangosyddion perfformiad fydd perfformiad awdurdodau gwella Cymreig yn cael eu mesur yn eu herbyn.

4 Mae adrannau 13 ac 14 o'r Mesur yn gosod dyletswyddau ar Awdurdodau Tân ac Achub i gasglu gwybodaeth am eu perfformiad ac i ddefnyddio'r wybodaeth hynny i gymharu yn erbyn eu perfformiad eu hunain yn y blynyddoedd blaenorol a - lle'n ymarferol - gyda pherfformiad sefydliadau tebyg. Mae gofyn iddynt hefyd ddefnyddio'r wybodaeth yma i asesu perfformiad eu gwasanaethau a'r effaith maent yn cael ar y canlyniadau i ddinasyddion a chymunedau.

## Cyflwyniad

5 Daeth Gorchymyn (Dangosyddion Perfformiad) (Cymru) 2011 yr Awdurdodau Tân ac Achub i rym ar Ebrill 1af 2011. Mae'n dynodi'r Dangosyddion Strategol fydd perfformiad yr Awdurdodau Tân ac Achub yn cael eu mesur yn eu herbyn o 2011-12 ymlaen.

6 Mae Cylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru W-FRSC (2001) 04 gyhoeddwyd ar 31 Mawrth 2011 yn cyflwyno'r Fframwaith Dangosyddion Perfformiad newydd ac yn rhestru'r dangosyddion statudol a chefnogi (craidd) a'r ardaloedd argymhellir datblygu dangosyddion perfformiad lleol o 2011-12 ymlaen. Sef:

6.1 <u>Dangosyddion Perfformiad Statudol</u>

Mae Awdurdodau Tân ac Achub o dan ddyletswydd gyfreithiol i gasglu ac adrodd ar y dangosyddion yma sy'n berthnasol i:

a) Danau a fynychwyd – mewn cyfanswm, tanau cynradd, tanau bwriadol a thanau damweiniol mewn cartrefi;
b) Anffodusion tân – marwolaethau ac anafiadau wedi eu dadelfennu gan gymhelliant (damweiniol a bwriadol);
c) Tanau a fynychwyd mewn eiddo annomestig. .

6.2 <u>Dangosyddion (Craidd) Safonol</u>

Mae'r dangosyddion statudol wedi eu cefnogi gan ddangosyddion safonol anstatudol (neu "wraidd") sy'n berthnasol i:

a) Anffodusion tân – marwolaethau ac anafiadau mewn cartrefi ac eiddo annomestig, wedi eu dadelfennu gan gymhelliant;
b) Larymau mwg maleisus – dderbyniwyd a mynychwyd;
c) Larymau ffug gan larymau tân awtomatig a systemau larwm mewn eiddo annomestig;
d) Tanau cynradd ac eilradd bwriadol a thanau eiddo;
e) Presenoldeb larymau mwg mewn tanau mewn cartrefi;
f) Tanau mewn cartrefi lle'r oedd Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref wedi ei wneud yn flaenorol;
g) Absenoldeb salwch staff, wedi ei ddadelfennu mewn grwpiau staff;
h) Ymddeoliadau oherwydd salwch, wedi eu dadelfennu mewn grwpiau staff.

7 Ni all ddangosyddion cenedlaethol fesur y cyflwyniad o bolisïau lleol, blaenoriaethau a phrosiectau, felly disgwylir i Awdurdodau Tân ac Achub ddefnyddio dangosyddion lleol, gwybodaeth rheoli a dulliau ansoddol megis adolygiad cyfoedion i fedryddu'r raddfa gwella.

8 Mae LlCC yn cydnabod y dylai bod monitro a mesur perfformiad mewn rhai ardaloedd polisi, ond bod ymagweddau lleol gwahanol yn golygu na fyddai dangosydd cenedlaethol yn briodol. Felly, mae LlCC felly wedi nodi ardaloedd penodol lle mae'n disgwyl i bob Awdurdod Tân ac Achub mabwysiadu dangosyddion perfformiad lleol. Sef:

8.1 <u>Dangosyddion Perfformiad neu wybodaeth perfformio arall</u>

a) Anafiadau i ddiffoddwyr tân
b) Cymhwysedd gweithredol y diffoddwyr tân
c) Perfformiad yn erbyn Cynllun Iaith Gymraeg y Gwasanaeth
d) Gweithgaredd cydweithio, ac i ba hyd mae hyn yn cael ei werthuso
e) Cyfrif am berfformiad cynaladwyedd
f) Cynaladwyedd.

## Dileadau

9 Wrth adolygu'r Dangosyddion Perfformiad cyn 1 Ebrill 2011, mae LlCC wedi edrych i ganolbwyntio ar fesur canlyniadau lle bynnag sy'n bosib, gyda mesurau gweithgaredd yn cael eu cynnwys lle mae effaith uniongyrchol neu arwyddocaol ar y canlyniadau dymunol.

10 Mae tri Dangosydd Perfformiad oedd yn gysylltiedig gyda Safon Gwasanaeth wedi cael eu dileu, ynghyd â phedwar dangosydd anstatudol oedd yn berthnasol i anabledd staff, ethnigrwydd a rhyw ac i dalu anfonebau o fewn 30 diwrnod.

## Argymhellion

11 Fod Aelodau'n nodi'r trefniadau am fesur perfformiad Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru.